


Teithiau Hanner Dydd a Mwy



Mynydd Preseli

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 5.6 milltir (9.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Mynachlog Du 345.

Cyfeirnod map: SN105325

Mwynhewch olygfeydd Mynyddoedd enwog y Preseli

Chwiliwch am: Carn Menyn yn ffynhonnell ar gyfer y dolerit smotiog/ carreg las, Siambr Gladdu Bedd Arthur, Cofgolofn Waldo.

Mae Mynyddoedd y Preseli wedi eu ffurfio o siâl Ordoficaidd caled a charreg llaid wedi'u cywasgu i mewn i lechi gyda darnau gwasgarog o rhyolit a dolerit – y garreg las enwog sy'n ffurfio cylch fewnol Côr y Cewri (Stonehenge). Dyma'r brynau uchaf ym Mhenfro.

O Garn Menyn y daw pileri Côr y Cewri, a Bedd Arthur gerllaw yw cylch cerrig y Preselau eu hunain sydd mewn siâp llygad anarferol. Mae yna gofgolofn i'r bardd Cymraeg Waldo Williams ym Mynachlogddu. Os ydych chi'n ddigon ffodus i gael diwrnod clir, fe fyddwch chi'n gallu gweld tua'r gogledd at Benrhyn Llŷn ac i'r Gorllewin i fynyddoedd Wicklow yn Iwerddon. Byddwch yn wylidwrus ar y mynyddoedd oherwydd mae'r adar, yn enwedig ym misoedd y gaeaf, yn gallu bod yn anhygoel gyda chymylau byw o ddrudwy'n ymgasglu yma i glwydo. Chwiliwch hefyd am fwncathod sy'n hela a chudyllod glas. Yn y Gwanwyn mae mwyelch y mynydd a bras yr eira yn fudwyr cyffredin.

Mae llawer o'r ucheldir yn gorsiog ac, o ganlyniad yn asidig iawn, felly fe welwch chi blanhigion prin sy'n gallu dioddef yr asid fel y ffynidfwsgl, llysiau'r afu, rhedyn a thegeirianau gyda phryfed fel pili-pala'r gors a mursen y de. Mae'r grug yn garped i'r gweundir mwy sych, ac yn hwyr yn yr haf chwiliwch am fwncathod, cudyllod coch, y gylfinir, cigfrain ac ehedyddion.

Cymeriad: Rhostir garw a llaid, da byw, amrediad graddiannau 200-360m, 2.6 km o gerdded ar isffordd.

Mwy o wybodaeth: Nid yw'r llwybr wedi'i farcio ar y bryn agored.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

